

# 5. Gwarchodfa Natur Genedlaethol

# Adroddiad Grŵp Ffocws

| Mynychwyr | |
|---|---|
| **Manylion Unigolyn** | **Yn Cynrychioli** |
| Hywel Roberts (HR) | CNC |
| Huw Green (HG) | CNC |
| John Harold (JH) | Cymdeithas Eryri |
| Alex Turner (AT) | Cefndir ECN / ecolegydd llawrydd |
| Geraint Williams (GWi) | APCE |
| Adam Daniel (AD) | APCE |
| Dafydd Roberts (DR) | APCE |
| Dr Paula Roberts (PR) | Prifysgol Bangor |
| Dr Paul Cross (PC) | Prifysgol Bangor |
| Anne Till (AT) | Cymuned Beddgelert |
| Gwynedd Watkin (GWa) | FUW |
| Rhys Thomas (**Hwylusydd**) (RT) | Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| Carwyn ap Myrddin (CaM) | APCE |
| Bethan Wynne Jones (BWJ) | APCE |
| **Ymddiheuriadau** | |
| Helen Pye | APCE |
| | |

**RT** - Croesawodd pawb i'r Grŵp Ffocws a diolchodd iddynt am fynychu.

**RT** – Esboniodd a phwysleisiodd mai pwrpas y sesiwn oedd edrych tuag at y dyfodol a helpu ffurfio cyfeiriad a strategaeth ar gyfer Cynllun Partneriaeth yr Wyddfa. Bydd y sesiwn yn cael ei chynnal trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ac mae croeso i bobl drafod ym mha bynnag iaith y maent yn ei ffafrio. Mae cyfieithydd yn bresennol ar gyfer y rhai sydd angen y gwasanaeth.

- **Cefndir y Bartneriaeth -** Mae Partneriaeth yr Wyddfa yn grŵp a sefydlwyd i greu ac yna gweithredu cynllun rheoli newydd ar gyfer Yr Wyddfa. Mae'r grwpiau yn cynnwys swyddogion sy'n cynrychioli'r sefydliadau a'r tirfeddianwyr sy'n gyfrifol am reolaeth 'ar-y-ddaear' y mynydd – sy'n amrywio o waith cadwraeth a rheoli llwybrau i dwristiaeth, ffermio ac achub mynydd.

- **Pwy sy'n Cymryd Rhan** – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (yn arwain); Undebau Ffermio: CLA, UAC, UCA; Eryri Bywiol; cynrychiolwyr cymdeithasau twristiaeth a busnesau lleol; Dafydd Jarrett; CBS Gwynedd; Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; Cyfoeth Naturiol Cymru; Cymdeithas Eryri; Ymddiriedolaeth Genedlaethol; Timau achub; Mynydd Diogel; cynrychiolwyr y Fforwm Mynediad Lleol.

- **Beth rydym wedi'i wneud hyd yn hyn** – Cynhaliwyd ymgynghoriad cychwynnol gyda sesiynau 'galw i mewn' mewn cymunedau o amgylch Yr Wyddfa, ac yna seminar agored i gasglu materion a syniadau. Yn dilyn hyn, crëwyd cynllun gwaith i weithredu 'gwelliannau buan' y gallem ddelio gyda nhw yn syth. Mae cylchlythyr yn cael ei anfon allan pob mis i roi diweddariad i'r holl randdeiliaid. Cafwyd cam / gwedd o gasglu data a gwybodaeth helaeth i sicrhau bod gennym yr holl ffeithiau i seilio penderfyniadau arnynt.
- **Y weledigaeth** - Trawsnewid Yr Wyddfa fel ei bod yn enghraifft o'r safon orau a gydnabyddir yn rhyngwladol a chyflawni hynny drwy gydbwyso cadwraeth, mynediad a'r economi wledig tra'n darparu profiad o'r radd flaenaf i ymwelwyr.

**RT - Yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni heddiw -** Defnyddio'r ymchwil wyddonol sydd ar gael, ynghyd â'r data a gasglwyd a'i gydlynu i mewn i'r dadansoddiad CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol) er mwyn nodi a blaenoriaethu syniadau a phrosiectau ar gyfer yr ardal a'r cyfeiriad gorau i'w gymryd. Bydd y grŵp hwn yn canolbwyntio ar sut y gallwn helpu tirfeddianwyr a'r gymuned leol i elwa ar dwristiaeth a rheoli ei effeithiau yn ardal Yr Wyddfa. I wneud hyn, bydd y mynychwyr yn cymryd rhan mewn dwy dasg;

a) Tasg un - Gweithio drwy'r dadansoddiad CAMPUS a nodi a blaenoriaethu syniadau pellach.

b) Tasg Dau - Dewis cwestiynau i'w trafod a nodi camau gweithredu manwl fel ymateb

Ond cyn hynny mae Carwyn am esbonio ychydig mwy am sut rydym yn ffurfio'r dadansoddiad CAMPUS.

**CaM**- Gyda'r materion, sylwadau a chanfyddiad pobl o'r Wyddfa a nodwyd o'r sesiynau galw heibio, roeddem wedyn angen y dystiolaeth i gefnogi / profi'r honiadau hynny - Felly casglwyd tystiolaeth dros y ddau fis diwethaf i gefnogi'r materion a godwyd yn ystod y cyfarfodydd ymgynghorol er mwyn cael darlun clir o 'Sut mae'r Wyddfa yn Edrych yn Awr'. Roedd y cam hwn hefyd yn fodd o Adnabod unrhyw fylchau gwybodaeth a thrwy hynny sicrhau y gallwn roi sylw iddynt lle bo angen yn y dyfodol. Lle y bo'n bosibl, gwybodaeth a oedd yn benodol i'r Wyddfa a ddefnyddiwyd (yn yr Arolwg Ymwelwyr er enghraifft), fel arall casglwyd data llai penodol ond roedd y data a gasglwyd yn dal yn berthnasol enghraifft gwybodaeth am Eryri, Gwynedd neu Gymru gyfan (mae data tuedd Cenedlaethol hefyd yn weddol berthnasol gan ei fod yn fynegiad o newidiadau ym mherfformiad y farchnad). Nid oeddem yn gallu trafod yr holl ffeithiau yn fanwl o fewn mewn gweithdy dwy awr, ond maent wedi cael eu hanfon allan a darparwyd tair enghraifft. Dywedwyd wrth y mynychwyr y byddant yn cael cyfle nes ymlaen i ychwanegu, gwaredu â neu wneud sylwadau am y rhain.

- Dywedodd 91% o'r rhai a holwyd ar Yr Wyddfa nad oeddynt wedi gweld fawr ddim **sbwriel** – treuliodd y wardeiniaid gwirfoddol dros 1,300 o oriau yn casglu tua 350 o fagiau o sbwriel yn ystod 2016. Mae ymdrech enfawr yn cael ei gwneud i leihau sbwriel ar y mynydd, ond mae yna rai mannau sy'n dal i achosi problemau fel y caffi ar y copa a'r caffi hanner ffordd, a lleoliadau cinio poblogaidd, megis ger y llynnoedd.

- Achoswyd 72% o ddigwyddiadau **aflonyddu ar ddefaid** am nad oedd y cwn ar dennyn.

- Cafodd 136 o ddatblygiadau **ynni adnewyddadwy** ganiatâd cynllunio rhwng 2014-15, ac o'r rhain, roedd 63 ohonynt yn ddatblygiadau ynni dŵr.


Mae'r wybodaeth a gasglwyd wedi ein galluogi ni i greu dadansoddiad CAMPUS clir a gweledol o'r materion sy'n ymwneud â'r Wyddfa. Rhoddwyd copi ar bob bwrdd a siaradodd Helen ychydig mwy am hynny.

**BWJ** - Esboniodd beth yw dadansoddiad CAMPUS a pham ei fod yn dechneg ddefnyddiol a gweledol ar gyfer deall Cryfderau a Gwendidau, ac ar gyfer nodi Cyfleoedd a'r Bygythiadau.

- **Cryfderau** - yw'r elfennau sy'n cael eu gwneud yn dda, neu'n well na lleoedd eraill, pwyntiau gwerthu unigryw e.e. profiad ymwelwyr yn uchel o'r arolwg, Hafod Eryri yn adeilad eiconig
- **Gwendidau** - yw'r elfennau y gellid eu gwella, y pethau nad ydynt yn cael eu gwneud mor dda â'r pethau sydd o bosib yn ein dal yn ôl rhag darparu isadeiledd a gwasanaethau o'r radd flaenaf e.e. Cyfleusterau toiled, analluu i dalu gyda cherdyn mewn peiriannau parcio ceir
- **Cyfleoedd** - fel yr amrywiaeth eang o atyniadau yn yr ardal gyfagos a dylanwadu ar ymddygiad ymwelwyr drwy ddarparu gwybodaeth o safon a allai fod o fudd yn y dyfodol
- **Bygythiadau** - yw'r rhwystrau sy'n ein hwynebu, er enghraifft mwy o bwysau ar y cyfleusterau a'r seilwaith a marchnad ar gyfer llety â gwasanaeth.

**BWJ** – Pwysleisiwyd yr angen i ganolbwyntio ar y dyfodol, parhau i fod yn realistig a chanolbwyntio ar yr elfennau yr ydym ni yn gallu ac a fyddwn yn gallu gwneud pethau yn eu cylch. Darparwyd copi o'r dadansoddiad CAMPUS i bob grŵp a gofynnwyd i'r mynychwyr wneud sylwadau ar, ychwanegu at neu ei ddiwygio yn ôl yr angen.

Gweithiodd y mynychwyr mewn grwpiau llai (uchod) i gyflawni'r tasgau a chafodd y sylwadau a'r syniadau eu cofnodi ar ddarnau mawr o bapur (isod)



## Tasg 1: Cyfle i ychwanegu at y taflenni dadansoddiad CAMPUS ar y waliau / bwrdd

Esboniodd **RT -** logisteg a phwrpas y dasg gyntaf;

- Gofynnwyd i fynychwyr a oeddynt yn cytuno gyda'r dadansoddiad CAMPUS ac a oedd yna unrhyw elfennau wedi cael eu colli yn eu barn hwy?
- Rhoddwyd 10 munud i bob grŵp ysgrifennu syniadau ar y taflenni
- Rhoddwyd 5 munud i'r grwpiau dynnu sylw at yr elfennau roeddynt yn cytuno fwyaf gyda nhw
- Gofynnwyd i un person o bob grŵp wedyn i rannu syniadau'r grŵp â gweddill y rhai oedd yn bresennol. Mae'r syniadau hyn wedyn cael eu hychwanegu at y dadansoddiad CAMPUS gwreiddiol ac mae'r canlyniadau yn y tabl isod. Y rhai a amlygwyd mewn gwyrdd yw'r elfennau roedd grwpiau yn cytuno fwyaf â nhw.

| *Ble'r ydym ni nawr* | | |
|---|---|---|
| | **CADARNHAOL** | **NEGYDDOL** |
| **MEWNOL** | **Cryfderau**<br>• Grŵp Geifr Gogledd Cymru yn gweithio'n dda iawn - enghraifft dda o weithio mewn Partneriaeth<br>• Crëwyd partneriaeth CGBLl<br>• Prosiectau / cynlluniau addysgol:<br>○ Y genhadaeth archwilio<br>○ Ceidwaid Ifanc<br>○ MICCI<br>○ Opal<br>• Darpariaeth / cyfleoedd hyfforddiant da yn lleol<br>• Prosiectau rhywogaethau ymledol<br>• Cynlluniau bugeilio<br>• Parhad a data o ansawdd da o gynllun ECN – a llefydd eraill megis CNC, CCGC, papurau gwyddonol amrywiol, BSBI, RSPB a BBS.<br>• Nodiadau hanesyddol gan wahanol sefydliadau (h.y. arferion rheoli tir a gwaith llwybrau sydd ar gael ar y system CMS gan CNC) | **Gwendidau**<br>• Mae poblogaethau geifr yn parhau i roi pwysau ar gynefinoedd / rhywogaethau<br>• CGBLl wedi dyddio?<br>• Diffyg gwybodaeth i ymwelwyr ar y Warchodfa Natur Genedlaethol (GNG)<br>• Diffyg cymhelliant gan dir berchnogion / rheolwyr i warchod eu tir<br>• Problemau gyda rhannu data rhwng sefydliadau<br>• Diffyg cyfathrebu llwyddiannus, ac adeiladu ar berthnasau a grëwyd<br>• Diffyg hyblygrwydd cynlluniau amaeth-amgylchedd sydd ddim yn cyfateb gyda'r anghenion lleol<br>• Diffyg dealltwriaeth / cyfathrebu am rywogaethau ymledol ymysg y cyhoedd / ymwelwyr - e.e. ymwelwyr yn gofyn pryd mae'r rhododendron yn blodeuo yn Nant Gwynant |

| | Cyfleoedd | Bygythiadau |
|---|---|---|
| MEWNOL | • Dynodiadau grymus /cryf iawn dros warchod<br>• Systemau cofnodi bywyd gwyllt e.e. Cofnod; Cobweb<br>• Tueddiadau cyfredol e.e. ymwybyddiaeth ofalgar; gweithgareddau anturus<br>• Ymgysylltedd gyda digwyddiadau awyr agored trwy gyfrwng Prosiect Rhodd Eryri<br>• Sefydlu partneriaeth ecolegol / bywyd gwyllt i fwydo i mewn i systemau cofnodi - gweithio gyda'r brifysgol a gwirfoddolwyr, er mwyn rhoi ymdeimlad o 'berchnogaeth'<br>• Cyfle i wella'r gwaith o fonitro nodweddion dynodedig<br>• Dynodiad awyr dywyll - lle i weithio gyda'r cyhoedd, ysgolion, mudiadau i gynnal teithiau cerdded a digwyddiadau bywyd gwyllt<br>• Gwell cyhoeddusrwydd o'r gwaith 'da' a wnawn<br>• Gweithio gyda Glastir - cyfleoedd e.e. grantiau a chyllid, pa welliannau y gellid eu gwneud ac ati | • Bygythiad parhaol rhywogaethau ymledol<br>• Brexit<br>• Newid yn yr hinsawdd<br>• Dirywiad chwilod<br>• Colli bioamrywiaeth<br>• Ansawdd dŵr<br>• Dwysedd Cynaliadwy - ffermydd mynydd (gallant fod yn gyfle hefyd)<br>• Gweithgareddau Dringo - technegau gwahanol / mwy datblygedig yn cael eu defnyddio<br>• Mesurau caledi<br>• Diffyg rheoleiddio rhai o'r effeithiau negyddol a ddaw yn sgil nifer fawr o ymwelwyr - h.y. sbwriel, erydiad, diffyg dealltwriaeth o'r cod cefn gwlad ac ati<br>• Mwy o ymwelwyr a mwy o bobl yn gweld Yr Wyddfa fel maes chwarae yn hytrach na GNG |

## Tasg 2: Grŵp i ddewis / pleidleisio ar 4 o'r cwestiynau i'w trafod yn fanwl

**JH -** Mae llawer iawn o ddata biolegol ac amgylcheddol yn cael ei gadw gan CNC, ECN, YG, Cofnod (o bosibl) a chyrff cofnodi biolegol allweddol. Ond mae'r data yn wasgaredig. Nid oes gan unrhyw gorff unigol unrhyw beth fel set data gynhwysfawr briodol. Ychydig iawn o wybodaeth hefyd sydd ar gael i'r cyhoedd am y Warchodfa Natur Genedlaethol a'i nodweddion arbennig. (Gwnewch chwiliad google - mae'n eithaf dadlennol). Er enghraifft - Nid yw safle dynodedig CNC yn caniatáu i chi chwilio am Warchodfeydd Natur Genedlaethol o gwbl, a tydi gwefan APCE ddim llawer gwell chwaith. O ystyried pwysigrwydd cenedlaethol GNG Yr Wyddfa, mae angen i ni fedru disgrifio yn iawn yr hyn yr ydym yn gofalu amdanynt. Mewn geiriau eraill, prosiect i nodi a thynnu data at ei gilydd, trefnu, a dod o hyd i ffordd tymor hir a diogel o gynnal, ychwanegu at, a'i defnyddio. Yr allbwn fydd adnodd i lywio'r cynllun partneriaeth, rhoi darlun clir o'r bioamrywiaeth a'r amgylchedd ehangach, helpu i asesu newid, a darparu deunydd crai o safon uchel ar gyfer dehongli, ysbrydoli a chodi ymwybyddiaeth. Gallai hefyd fod yn agoriad i gynnwys pobl i gasglu data pellach wrth i ni adnabod yr angen.

**RT –** Gofynnodd i'r grŵp i benderfynu ar y cyd ar 4 cwestiwn a nodi rhestr o gamau gweithredu ar gyfer pob cwestiwn. Adroddodd pob grŵp yn ôl ar ddiwedd y dasg ar y cwestiynau a ddewiswyd. Mae'r rhestr o gamau gweithredu a awgrymir wedi eu rhestru isod:

**Cwestiwn 1**:

A oes unrhyw leoedd y mae pobl yn teimlo bod angen sylw penodol? Mwy o waith gyda Phrifysgol Bangor - data cyfyngedig neu a oes llawer o ymchwil, ond nid yw'n cael ei rannu?

- Angen trafod cyfleoedd ymchwil - cryfhau cyfathrebu rhwng APCE / Partneriaeth Yr Wyddfa a myfyrwyr ymchwil / Prifysgol Bangor
- Angen is-grŵp i arwain
- Gweithio mewn partneriaeth i gyrraedd ac ymgynghori gydag ystod eang o weithwyr proffesiynol perthnasol i nodi prosiectau posibl a blaenoriaethu yn effeithiol
- Ymgynghoriad i drafod lle rydym yn cadw gwybodaeth - ble yw'r lle gorau i gadw'r wybodaeth a gasglwyd a sut yr ydym yn mynd i wneud yn siŵr ei bod yn hawdd i'w deall a'i defnyddio. Pwy sy'n cael mynediad at y wybodaeth h.y. a ddylai'r cyhoedd gael gweld papurau ymchwil sydd heb gael eu cyhoeddi?
- Y brif dasg yw ysbrydoli diddordeb ymysg pobl a dod o hyd i rywun sy'n llawn cymhelliant ac yn angerddol.

**Cwestiwn 2:**

Ai byrddau gwybodaeth yw'r ffordd orau o drosglwyddo gwybodaeth am y GNG i ymwelwyr?

- Mae angen gwybodaeth o ryw fath yn bendant - ond ddim yn siŵr os mai byrddau gwybodaeth yw'r dull gorau.
- Tra'n cadw mewn cof fod pawb yn tueddu i ffafrio gwahanol ffyrdd o dderbyn gwybodaeth, mae'n debyg mai'r peth gorau yw cael cymysgedd o ddulliau o gyfleu gwybodaeth. H.y. cymysgedd o fyrddau gwybodaeth, byrddau rhyngweithiol, gwefannau, apps ac ati
- Os yw byrddau gwybodaeth yn cael eu defnyddio, mae angen ymgynghori ar ble maent wedi cael eu lleoli a beth yw'r math mwyaf effeithiol (Awgrymodd RT rhai tebyg i'r hyn sydd gan yr YG, lle gall y wybodaeth gael ei newid drwy gydol y tymhorau ayyb)
- Mynediad haws at wybodaeth
- Sicrhau bod gwybodaeth gyson yn cael ei darparu drwy'r amser - mae pawb sy'n gysylltiedig angen cytuno ar y wybodaeth o flaen llaw ac mae angen gwneud defnydd o'r wybodaeth sydd ar gael yn barod
- Sefydlu Strategaeth Gyfathrebu

**Cwestiwn 3:**

Beth am rhywogaethau ymledol eraill i.e. Creigafal? Beth mae pobl yn ei deimlo am redyn? A ddylem wneud mwy i'w reoli? A oes digon o ymchwil?

- Mae'n anodd iawn rheoli Creigafal, ond mae ychydig ohono ar Yr Wyddfa (Y Wenallt)
- Mae rhywogaethau ymledol newydd yn ymddangos yn flynyddol e.e. Perlysieuyn Helyg Seland Newydd ('New Zeland Willow Herb'). Mae angen trafodaeth benodol ar sut i reoleiddio (drwy is-grŵp a bwydo mewn i Cofnod / Cobweb. Gallai fod yn rhan o'r bartneriaeth?). Angen gwneud rhywbeth amdano nawr - rheoleiddio effeithiol yn ymofyn am ymateb rhagweithiol yn hytrach nac adweithiol.

- Angen mwy o waith ymchwil ar redyn - beth yw ei werth, o ran bioamrywiaeth ac fel arall (h.y. y posibiliadau o'i ddefnyddio mewn meddyginiaeth ac ati) a allai gynnig cyfleoedd positif. (Mae hyn yn plethu â Phrifysgol Bangor)
- Mae angen i redyn gael ei reoli mewn cynefinoedd blaenoriaeth / sensitif
- Mae rhedyn yn rhywogaeth arloesol, - yn hytrach na'i reoli a allem ganiatáu iddo ddatblygu i fod yn goetir? Angen trafod gyda'r tir berchennog / ffermwr.

**Cwestiwn 4:**

A fyddai pecynnau gwybodaeth i dirfeddianwyr yn ddefnyddiol? Sut y gallant barhau â'u harferion ffermio traddodiadol a gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau gwerthfawr a chael eu hysbrydoli gan Gynllun Bugeilio Hafod y Llan. Beth am Weithdai i Dirfeddianwyr?

- Ddim yn meddwl mai pecynnau gwybodaeth yw'r dewis gorau - amserlenni prysur?
- Gweithdai yn gallu bod yn opsiwn gwell - rhai sy'n cael eu cynnal gan Cyswllt Ffermio yn llwyddiannus
- Gweithio gyda phartneriaid i gryfhau cyfathrebu a meithrin perthynas gyda'r gymuned ffermio a rhannu gwybodaeth.
- Sefydlu strategaeth farchnata o bosib - Gweithio gyda pherchnogion tir a ffermwyr i werthu'r stori yn hytrach na'r cig / cynnyrch h.y. technegau ffermio mynydd traddodiadol, cadwraeth a ffermio yn mynd law yn llaw.

**RT** – Diolchodd i bawb am eu cyfraniad gwerthfawr. Dywedodd wrth y mynychwyr y bydd adroddiad cryno yn cael ei anfon allan yn fuan.

## Camau Nesaf

Bydd y Bartneriaeth yn awr yn nodi sefydliadau arweiniol i gyflawni ar y prosiectau a'r camau gweithredu. Bydd hyn i gyd yn cael ei ymgorffori yn y Cynllun Partneriaeth (drafft) ac fe ymgynghorir ar hwn ddechrau'r flwyddyn nesaf. Bydd yna hefyd seminar i drafod y Cynllun Partneriaeth drafft tua Ionawr 2017



# 5. The National Nature Reserve

# Focus Group Report

| Attendees | |
|---|---|
| **Organisation/Individual Details** | **Representing** |
| Hywel Roberts (HR) | NRW |
| Huw Green (HG) | NRW |
| John Harold (JH) | Snowdonia Society |
| Alex Turner (AT) | Background to ECN/freelance ecologist |
| Geraint Williams (GWi) | Snowdonia National Park Authority |
| Adam Daniel (AD) | Snowdonia National Park Authority |
| Dafydd Roberts (DR) | Snowdonia National Park Authority |
| Dr Paula Roberts (PR) | Bangor University |
| Dr Paul Cross (PC) | Bangor University |
| Anne Till (AT) | Beddgelert community |
| Gwynedd Watkin (GWa) | FUW |
| Rhys Thomas (**Facilitator**) (RT) | National Trust |
| Carwyn ap Myrddin (CaM) | Snowdonia National Park Authority |
| Bethan Wynne Jones (BWJ) | Snowdonia National Park Authority |
| **Apologies** | |
| Helen Pye | Snowdonia National Park Authority |
| | |

**RT** - Welcomed everyone to the Focus Group and thanked them for attending.

**RT** – Explained and emphasised that the purpose of the session was to look towards the future and help form direction and strategy for the Snowdon Partnership Plan. The session will be carried out in English and Welsh and people were to discuss in whatever language they preferred. A translator was present for those who required it.

- **Background of the partnership** - The **Snowdon Partnership** is a group set up to create and then implement a new management plan for Snowdon. The groups comprise officers who represent the organisations and landowners that are responsible for on-the-ground management of the mountain - ranging from conservation work and path management to tourism, farming and mountain rescue.
- **Who's involved** – Snowdonia national Park (leading); Farming Unions: CLA, FUW, NFU; Snowdonia Active; local tourism association and business representatives; Dafydd Jarrett; Gwynedd CBC; Conwy CBC; Natural Resources Wales; Snowdonia Society; National Trust; Rescue Teams; Mountain Safe; Local Access Forum representatives.
- **What we've done so far** – Large initial consultation with drop in sessions in communities surrounding Snowdon, followed by open seminar to gather issues and ideas. Work plan

created to implement 'quick wins' i.e. issues/ideas raised that we could address straight away. Regular monthly updates on progress via newsletter to all stakeholders. Extensive data and information gathering stage to ensure we have all the facts on which to base decisions.

- **The vision** - To transform Snowdon into an internationally recognised exemplar of best practice in balancing conservation, access and the rural economy whilst providing a first class visitor experience

**RT - What we want to achieve today** – To use the available data gathered and complied in to the SWOT analysis to identify and prioritise **ideas and projects** for the area and the **best direction** to take in order to reach them. . This groups will focus how we can help landowners and the local community to benefit from tourism and manage its impacts in the Snowdon area.To do this, attendees are to participate in two tasks;

a) **Task one** – will involve working through the SWOT analysis and identifying and prioritising further ideas.
b) **Task Two** - will involve choosing questions for discussion and identifying detailed actions in response

But before then Carwyn will explain a little bit more about how we formed the SWOT analysis.

**CaM**- With the issues, comments and people's perception of Snowdon identified from the drop in sessions, we then needed the evidence to back these claims up – So for the last two months' evidence has been gathered to back up the issues raised during the consultation meetings and gain a clear picture of 'What Snowdon Looks Like Now'. This phase was also a means of Identifying any knowledge gaps and thus to ensure that we can address them where necessary in future. Where possible, information which was specific to Snowdon was used (Visitor Survey for example), otherwise less specific but still relevant data was gathered for example information on Snowdonia, Gwynedd or Wales as a whole (National trend data is also broadly relevant as it gives an indication to changes in market performance). We weren't able to discuss all facts in detail within the two-hour workshop but they have been sent out and three examples were given. Attendees were told that they would have an opportunity later on to add, remove or comment of these

- 91% of those surveyed on Snowdon said that they saw little to no **litter** – volunteer wardens spent over 1,300 hours collecting around 350 bags of litter during 2016, Huge amount of effort goes in to reducing the amount of litter, but there are still some hotspots such as the summit and half way café, and also popular lunch spots such as near the lakes.

- 72% of **sheep worrying** incidents were caused due to the dog not being on a lead.

- 136 **renewable energy** developments were granted planning permission between 2014-15, of which, 63 were hydro power developments.


The information gathered allowed us to create a clear and visual SWOT analysis of the issues on or relating to Snowdon which I've placed on your table so feel free to have a look through these. Helen will talk a bit more about that.

**BWJ** - Explained what as SWOT analysis is and why it's a useful and visual technique for understanding Strengths and Weaknesses, and for identifying Opportunities and the Threats.

- **Strengths** – are the elements that are being done well, or better than other places, unique selling points e.g. visitor experience ratings are high, Hafod Eryri being an iconic building

- **Weaknesses** – are the elements that could be improved, the things that aren't being done so well and the things that are potentially holding us back from providing world class infrastructure and services e.g. the capacity at Pen Y Pass, Toilet facilities, inability to pay with card at car parking machines
- **Opportunities** – such as a wide range of attractions in the nearby area and influencing behaviour through information provision which could be beneficial in the future
- **Threats** – are the obstacles that we face, for example increased pressure on facilities and infrastructure and a shrinking market for serviced accommodation.

**BWJ** – Emphasised the need to concentrate on the future, remain realistic and focus on the elements that we are and will be able to do something about. A copy of the SWOT analysis was provided to each group and attendees were asked to make comments on, add to and amend them as necessary.




Attendees worked in smaller groups to carry out the tasks and the comments and ideas were recorded on large sheets of paper on each table (above)

## Task 1: Opportunity to add to the SWOT analysis sheets on the walls/table

**RT** – Briefly explained the logistics and purpose of the first task;

- Attendees were asked whether they agree with the SWOT analysis and whether there any other major elements that they think have been missed?
- Each group was given 10 minutes to write ideas on the sheets provided that they think had been missed out
- Groups were then asked to highlight the ideas they most strongly agreed with

- One person from each group then shared their groups ideas with the rest of those present. These ideas were then added to the original SWOT analysis and the results are in the table below. Those highlighted in green are the elements that both groups felt that they most agreed with.

| *Where we are now* | | |
|---|---|---|
| | **POSITIVE** | **NEGATIVE** |
| **INTERNAL** | **Strengths**<br><br>• North Wales Goat Group working very well – good example of Partnership working<br>• Creation of LBAP - partnership<br>• Educational projects/schemes:<br>• Mission explore<br>• Young Rangers<br>• MICCI<br>• Opal<br>• Good training provision/opportunities locally<br>• Invasive species projects<br>• Shepherding schemes<br>• Continuity and good quality data from ECN scheme as well as other sources including NRW, CCGC, various scientific papers, BSBI, RSPB and BBS.<br>• Historical notes by various organisations (i.e. land management practices and footpath work available on the CMS system by NRW) | **Weaknesses**<br><br>• Goat populations continue to put pressure on habitats/species<br>• Outdated information on the LBAP?<br>• Lack of information for visitors on NNR<br>• Lack of motivation by land owners / managers to conserve their land<br>• Problems with sharing data between organisations<br>• Lack of successful communication, and building on relationships built<br>• Inflexibility of agri-environment schemes which possibly don't adhere to local needs<br>• Lack of understanding / communication about invasive species with general public / visitors – e.g. visitors ask when the rhododendron is in bloom in Nant Gwynant |

| | Opportunities | Threats |
|---|---|---|
| EXTERNAL | • Powerful designations for protection<br>• Wildlife recording systems e.g. Cofnod; Cobweb<br>• Current trends e.g. mindfulness; adventurous activities<br>• Engagement with outdoor events through Rhodd Eryri Project<br>• Establishing a wildlife/ ecological partnership to feed in to recording systems – work with the university and volunteers, to give sense of 'ownership'<br>• Room to improve the monitoring of designated features<br>• Dark skies designation – room to work with public, schools, organisations to host walks and wildlife events<br>• Better publicity of the 'good' work that we do<br>• Work with Glastir – opportunities e.g. grants and funding, what improvements could be made etc. | • Continued threat of invasive species<br>• Brexit<br>• Climate change<br>• Decline in beetles<br>• Loss of biodiversity<br>• Water quality<br>• Sustainable Intensification – hill farms (could also be an opportunity)<br>• Climbing Activities – different / more advanced techniques are being used<br>• Austerity<br>• Lack of regulation of some of the negative impacts that comes with the large number of visitors – i.e. litter, erosion, lack of understanding of the countryside code etc.<br>• More visitors and more people seeing Snowdon as a playground rather than a NNR<br>• |

**Task 2: Group to choose/vote on 4 of the questions to discuss in detail**

**RT –** Asked the group to collectively decide on 4 questions and to come up with a list of actions for each question. Each group reported back at the end of the task and the questions chosen and the list of actions suggested are listed below:

**Question 1**:

Are there any places that people think need attention specifically? More work with Bangor University – limited data or are there lots of research but it's not being shared?

- Need to discuss research opportunities – strengthen communication between SNPA / Snowdon Partnership and Bangor University / potential research students
- 
- Need a sub group to lead
- Work in partnership to reach and consult wide range of relevant professionals to identify potential projects and prioritize them effectively
- 

**Question 2:**

Are information boards the best way of relaying information about the NNR to visitors? What about leaflet to celebrate Yr Wyddfa NNR?

**Question 3:**

What about other invasive species i.e. Cotoneaster are we doing enough to control them? What do people think about bracken? Should we do more to control it? Is there enough information?

**Question 4:**

Would information packs for land owners be useful? How they can carry on with their traditional farming practice and conserve valuable habitats and species take inspiration from Hafod y Llan Shepherding Scheme. How about Workshops for Landowners?

**RT** – Thanked everyone for their valuable input. Attendees were informed that a summary report will be sent out shortly.

## Next Steps

The Partnership will now identify lead organisations to deliver on the projects and actions. This will all be incorporated into the draft Partnership Plan which will be consulted on early next year. There will also be a seminar to discuss the draft Partnership Plan approximately January 2017.